# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Mercher, 4 Medi 2024 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Michelle Blakeley-Walker, Ellie Chard, Karen Edwards, Gwyneth Ellis, Chris Evans, Justine Evans, Jon Harland, Huw Hilditch-Roberts, Alan James (Is-Gadeirydd), Delyth Jones, Julie Matthews, Terry Mendies, Merfyn Parry, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, Andrea Tomlin, Cheryl Williams, Elfed Williams a/ac Mark Young (Cadeirydd)

## HEFYD YN BRESENNOL

Ymgynghorydd Cyfreithiol (CL), Rheolwr Datblygu (PM), Prif Swyddog Cynllunio (PG), Gweinyddwr Zoom (SW) a Gweinyddwr Pwyllgorau (RhTJ).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Raj Metri a James Elson.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Alan James gysylltiad personol ag eitem 6 ar y rhaglen; gan fod yr ymgeisydd y sonnir amdano yn eitem 6 wedi gwneud rhywfaint o waith iddo yn y gorffennol.

Datganodd y Cynghorydd Cheryl Williams gysylltiad personol ag eitem 7 ar y rhaglen, gan fod ei brawd yn byw gerllaw’r safle.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau brys gyda’r Cadeirydd cyn dechrau’r cyfarfod.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2024.

Nid oedd unrhyw fater yn ymwneud â chywirdeb; fodd bynnag, codwyd mater safle hen Ysbyty Gogledd Cymru gan y Cadeirydd. Dywedodd ei fod, yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf, wedi derbyn nifer o ymholiadau gan y cyhoedd – fel ag y gwnaeth aelodau etholedig eraill o Gyngor Sir Ddinbych nad oedd ar y Pwyllgor Cynllunio. Dymunai gynyddu’r ymgysylltiad â’r cyhoedd er mwyn sicrhau bod pobl yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â’r mater. Sicrhaodd swyddogion yr aelodau y byddent yn trafod y mater gyda’r swyddogion perthnasol i sicrhau mwy o ymgysylltu.

Awgrymodd y Cynghorydd Delyth Jones y dylid trafod unrhyw awgrymiadau ynglŷn ag ymgysylltu yng nghyfarfod Grŵp Ardal Aelodau Dinbych er mwyn sicrhau bod aelodau lleol yn ymwybodol o unrhyw faterion yn ymwneud â safle hen Ysbyty Gogledd Cymru; yr oedd y swyddogion yn cytuno â'r awgrym hefyd.

***PENDERFYNWYD:*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2024 yn gofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.*

**5 CAIS RHIF 15/2023/0029 BURLEY HILL GARAGE, ERYRYS**

Cyflwynwyd cais i gael newid defnydd tir ar gyfer parcio 3 coets ar y man tarmac presennol (cais ôl-weithredol) yn Burley Hill Garage, Eryrys, yr Wyddgrug (dosbarthwyd ymlaen llaw).

**Siaradwr Cyhoeddus –**

Kean's Coaches (ymgeisydd) (o blaid) – Dywedodd y siaradwr cyhoeddus eu bod wedi derbyn adroddiad y swyddogion cynllunio yn ei gyfanrwydd ac, ar y cyfan, eu bod yn cytuno â chynnwys yr adroddiad mewn perthynas â'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd i'r cais hwn. Nodwn na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau proffesiynol. Mae gennym gefnogaeth gan y Cyngor Cymuned a chan adran briffyrdd Sir Ddinbych a swyddogion Gwarchod y Cyhoedd.

Dywedodd y siaradwr cyhoeddus fod tri o'r pum gwrthwynebiad a dderbyniwyd wedi dod o'r un eiddo. Cyflwynwyd dau o'r pump ar ôl y dyddiad cau, ac yr oedd y pryderon a godwyd yn ymwneud â sŵn. Comisiynwyd adroddiad sŵn gan yr ymgeisydd, a ganfu na fyddai unrhyw effaith negyddol ar eiddo cyfagos. Cafwyd pryderon ynglŷn â'r effaith ar ddiogelwch y briffordd. Yn hanesyddol defnyddiwyd yr iard hon ar gyfer cerbydau nwyddau trwm, ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau gan Swyddog Priffyrdd Sir Ddinbych.

Yr oedd cerbydau nwyddau trwm yn arfer bod yn yr un lleoliad ar y safle, ac yr oeddynt hwy lawer mwy swnllyd na'r coetsys yr ydym yn eu defnyddio, ac yn cynhyrchu llawer mwy o allyriadau. Ni fydd unrhyw effaith weledol o gymharu â'r caniatâd cynllunio sydd eisoes ar waith ar y safle. Codwyd pryderon hefyd ynglŷn â nifer y coetsys a fydd yn cael eu parcio ar y safle. Hoffem nodi bod dwy uned fasnachol ar y safle sy'n cael eu rhentu. Mae'r ddau fusnes hwnnw'n darparu gwasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw ar gyfer cerbydau masnachol, coetsys, bysiau, faniau a cherbydau nwyddau trwm. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gyfyngiadau ar nifer y cerbydau y gellir eu parcio ar gyfer gwneud gwaith atgyweirio neu gynnal a chadw. Yn ogystal, nid oes unrhyw gyfyngiadau ar symudiadau cerbydau i'r safle ac allan ohono ar unrhyw adeg, dim ond i'r adeilad ac allan ohono; neu mae'r cais ar gyfer parcio coetsys ar wahân i'r telerau cynllunio sydd eisoes ar waith ar gyfer y ddwy uned fasnachol.

Dywedodd y siaradwr cyhoeddus mai busnes sy'n tyfu ydyw, sy'n dod â ffyniant economaidd i gymuned wledig. Mae'n darparu cyfleoedd gwaith i breswylwyr lleol a gwasanaethau i ysgolion, grwpiau cymunedol ac elusennau. Mae gennym

gontractau ysgolion ar hyn o bryd gyda Chyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Ddinbych. Felly, i gloi, os na allwn barcio coetsys, ni allwn weithredu.

**Trafodaeth Gyffredinol –**

Yr oedd y Cynghorydd Terry Mendies (aelod lleol) yn cefnogi'r cais yn llwyr. Mae'n gais syml – ar gyfer parcio tair coets mewn iard mewn lleoliad gwledig – a dylem fod yn annog mentrau busnes bach.

Fodd bynnag, cynigiodd y Cynghorydd Mendies ddiwygiad i'r cais, sef bod yr oriau bron yn cadw at amseroedd defnyddio'r iard ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, yr oriau yw 8.00am tan 6.00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener; 8.00am tan 1.00pm ar ddydd Sadwrn; ac ni chaniateir unrhyw weithgarwch ar ddydd Sul na gwyliau cyhoeddus. Dywedodd y Cynghorydd Mendies hefyd nad oedd yn cefnogi'r cynnig ar gyfer mynediad 24/7 i'r safle.

Ar ôl siarad â'r preswylwyr, a chan ystyried bod y coetsys y cyfeirir atynt yn y cais hwn yn cael eu defnyddio ar gyfer mynd â phlant i'r ysgol, byddai'n briodol diwygio'r oriau i ddechrau am 7.30am, a chadw at y cyfyngiadau presennol, sef 6.00pm.

Mae'r iard hon yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, a byddai'n annerbyniol cael coetsys yn mynd a dod drwy'r amser.

Amlygodd y Cynghorydd Mendies bwynt 1.7.2 yn yr adroddiad, sef *'Nodir ei bod yn bosibl bod rhai enghreifftiau o dorri rheolaeth gynllunio yn dal i fod ar y safle, sydd y tu hwnt i reolaeth y cais cynllunio hwn. Fodd bynnag, cynghorir yr aelodau nad yw hyn yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar y cais hwn, a gellir ymdrin â hwy ar wahân. Cynghorir yr aelodau i ystyried y cais hwn ar sail yr hyn y gofynnir amdano'n unig – parcio 3 coets / bws ar y safle.'* Gorffennodd y Cynghorydd Mendies drwy ofyn a ellid rhybuddio swyddogion cynllunio i sicrhau gorfodaeth gadarn os oes angen, gan fod yna bosibilrwydd o dorri rheolaeth gynllunio.

Ymatebodd y swyddogion i'r pwyntiau a godwyd gan yr aelod lleol. Amlygwyd ganddynt nad oedd unrhyw gyfyngiadau presennol ar y safle yn ymwneud â cherbydau'n mynd i'r safle ac yn gadael – gallai cerbydau fynd a dod fel y mynnent. Yr oedd yr ymgeiswyr wedi gwneud asesiad ar y sŵn a achosir gan injans bysiau yn cychwyn ar y safle, a dangosai ei bod yn debygol na fyddai'r sŵn o'r bysiau'n niweidiol i'r preswylwyr yn y cyffiniau. Fodd bynnag, nodwyd y gallai tîm Gwarchod y Cyhoedd ymdrin ag unrhyw gwynion a dderbynnid drwy ddeddfwriaeth niwsans statudol.

Cyn dechrau'r drafodaeth, gofynnodd y Cadeirydd am eilydd ar gyfer y diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Mendies. Nid eiliwyd y cynnig, felly dilëwyd y cynnig.

Siaradodd y Cynghorydd Merfyn Parry o blaid y cais. Dywedodd fod y cais yn cefnogi busnes lleol, ac y gallai unrhyw gyfyngiadau ar amseroedd gweithredu'r busnes fod yn rhwystr iddo.

**Cynnig** Cynigodd y Cynghorydd Merfyn Parry y dylid cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y swyddog, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Andrea Tomlin.

Yr oedd y Cynghorydd Tomlin yn cytuno â'r cais hefyd, ac, o brofiad personol, credai y byddai gallu gweithredu 24/7 yn hanfodol gan fod yr ymgeisydd yn cynnig gwasanaeth yn lle'r trên.

**Pleidlais –**
**O blaid – 19**
**Yn erbyn – 0**
**Ymatal – 0**

***PENDERFYNWYD:** y dylid **CYMERADWYO**'r cais yn unol ag argymhelliad y swyddog.*

**6 CAIS RHIF 41/2024/0115/PF THE WARREN, BODFARI**

Cyflwynwyd cais i gael codi annedd menter wledig, gosod tanc septig, a gwaith cysylltiedig yn The Warren, Bodfari, Dinbych.

**Siaradwr Cyhoeddus –**

Rod Waterfield (o blaid) – Diolchodd y siaradwr cyhoeddus i'r pwyllgor am gael siarad. Yr oedd y cais ar gyfer annedd menter wledig, ac nid annedd amaethyddol. Mae'r safle yn 50 erw o dir yn Nyffryn Chwiler y tu allan i Fodfari; y mae'n eiddo i ymddiriedolaeth deuluol, ac wedi ei neilltuo er budd amgylcheddol, cymdeithasol a chymunedol am y 125 mlynedd nesaf. Rhannwyd y tir i ddau floc. Mae un yn 40 erw o goetir sydd â mynediad cyhoeddus caniataol iddo, mae'n rhan o Goedwig Genedlaethol Cymru, ac wedi ei neilltuo at ddefnydd cymdeithasol, amgylcheddol a chyhoeddus. Mae'r bloc arall yn 10 erw ac ym mhen uchaf y safle, ac yr oedd nifer o sefydliadau'n defnyddio'r bloc hwnnw. Defnyddid amrywiol beiriannau i ymgymryd â phethau fel gwaith contractio amgylcheddol, rheoli canolfan sgiliau coetir – y fwyaf yng Nghymru, mae'n debyg – ac yr oeddynt hefyd yn cynnal cyrsiau crefftau traddodiadol. Cynhelid tua saith deg o gyrsiau bob blwyddyn.

Dywedodd y siaradwr cyhoeddus fod llawer o sefydliadau a chyrff yn defnyddio'r safle ar gyfer nifer o ddigwyddiadau. Yr oedd safle carafanau bach a 14 o randiroedd yn cael eu gosod; yr oedd y ddwy nodwedd yn agored drwy gydol y flwyddyn.

Yr oedd yna hefyd dri thwnnel polythen ac uned fach gydag ieir a moch ar y safle; yr oedd planhigion blodau gwylltion ar gyfer tîm bioamrywiaeth y Cyngor hefyd yn cael eu tyfu. Yr oedd y ddau beth hwn yn darparu cyfleoedd gwaith. Yr oedd yna weithdy hefyd lle gwneid eitemau ar gyfer y gymuned leol a grwpiau amgylcheddol – yr Ymddiriedolaeth Natur yn bennaf, a sefydliadau achub a sefydliadau amrywiol eraill hefyd.

**Trafodaeth Gyffredinol –**

Caniataodd y Cadeirydd i'r swyddogion dynnu sylw at bwyntiau allweddol yr adroddiad cyn caniatáu i'r aelodau lleol drafod y cais. Dywedodd y swyddogion fod y prif reswm dros wrthod y cais yn ymwneud â Nodyn Cyngor Technegol 6, sef

“mae yna angen swyddogaethol dilys clir”. Teimlai swyddogion o’r manylion a rannwyd gan yr ymgeisydd nad oedd angen swyddogaethol oherwydd nid oedd angen i rywun fod yn bresennol ar y safle am 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos. Felly, teimlai’r swyddogion nad oedd y cais, yn y bôn, yn pasio profion Nodyn Cyngor Technegol 6.

Heriodd y Cynghorydd Chris Evans (aelod lleol) argymhelliad y swyddogion i wrthod y cais. Dadleuodd fod yr holl safle’n fendith i’r gymuned ac yn cynorthwyo’r rhai mwyaf diamddiffyn, a bod angen ei gynnal. Dadleuodd fod angen presenoldeb ar y safle oherwydd pryderon ynglŷn â diogelwch, gan fod sawl eitem o offer drud yno, a byddai cael rhywun ar y safle’n atal camweddau rhag digwydd.

**Cynnig** – Cynigodd y Cynghorydd Chris Evans y dylid cymeradwyo’r cais yn groes i argymhelliad y swyddog, ac fe’i heiliwyd gan y Cynghorydd Merfyn Parry. Byddai’r rhesymau’n cael eu nodi cyn y bleidlais.

Ymatebodd y swyddogion i’r pwynt ynglŷn â diogelwch, gan gyfeirio at Nodyn Cyngor Technegol 6. Byddai’n rhaid i’r aelodau fod yn fodlon nad oes unrhyw ddewis arall parthed diogelwch ar y safle.

Yr oedd y Cynghorydd Merfyn Parry yn cefnogi’r pwyntiau a godwyd gan y Cynghorydd Evans; dywedodd fod pawb sy’n defnyddio’r safle’n canmol y cyfleuster a phopeth a gynigir ar y safle. Holodd y Cynghorydd Parry a oedd rhesymau lluosog wedi eu nodi i ddangos bod angen sylfaenol am godi annedd menter wledig; dywedodd swyddogion y byddai’n beth da eu rhestru os oedd, er mwyn cyfiawnhau mynd yn groes i argymhelliad y swyddog.

Cynigiodd y Cynghorydd Elfed Williams ohirio’r cais. Credai nad oedd yr holl wybodaeth berthnasol ar gael ganddo i bleidleisio’n hyderus ar y mater, gan ei fod wedi clywed dadleuon cryf o bob ochr i’r ddadl.

Eiliodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis y cynnig i ohirio’r cais hyd nes y cyflwynid yr holl wybodaeth berthnasol, er mwyn i’r aelodau allu pleidleisio’n hyderus ar y mater.

**Pleidlais –**
O blaid – 9
Yn erbyn – 10
Ymatal – 0

Ni phasiwyd y bleidlais i ohirio’r cais, felly parhaodd y drafodaeth yn ei gylch.

Yr oedd yr aelodau’n bryderus y gallai’r cais, pe bai’n cael ei ganiatáu, osod cynsail ar gyfer caniatáu ceisiadau tebyg eraill. Dywedodd y Cadeirydd a’r swyddogion wrth yr aelodau fod pob cais yn seiliedig ar ei ystyriaethau perthnasol ei hun, yn annibynnol ar geisiadau tebyg eraill.

Diolchodd y Cynghorydd Parry i’r Cadeirydd am ganiatáu iddynt siarad eto. Awgrymodd, pe bai’r cais yn cael ei ganiatáu yn groes i argymhellion y swyddog, y ceid gwared â’r annedd oddi ar y safle pe bai’r busnes sy’n gysylltiedig i’r cais yn dod i ben. Dywedodd y swyddogion y byddai’r amodau’n cael eu trafod yn

ddiweddarach, naill ai gyda'r aelod lleol neu drwy ddychwelyd at y pwyllgor yn ddiweddarach; cytunodd y pwyllgor i drafod yr amodau mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Cyn y bleidlais, caniataodd y Cadeirydd i'r aelod lleol, y Cynghorydd Chris Evans, amlinellu ei resymau dros fynd yn erbyn argymhellion y swyddog. Dywedodd na fyddai'r dewisiadau diogelwch yn caniatáu i unrhyw un ymateb yn gyflym i faterion pe bai rhywbeth yn codi. Yr oedd y safle mewn ardal wledig, a byddai angen amser i ymdrin ag unrhyw fater. Parthed lles da byw, byddai cael rhywun ar y safle'n caniatáu i'r anifeiliaid yno gael gofal ychwanegol; ac, yn olaf, byddai cael rhywun yn bresennol o fantais i'r rheiny sy'n defnyddio'r safle carafanau. Nid ystyrid bod y sefyllfa bresennol (a oedd o fudd i'r gymuned ehangach) yn gynaliadwy pan fyddai'r perchennog / rheolwr presennol yn gadael y busnes, a byddai annedd ar y safle er mwyn i reolwr safle fyw yno o gymorth i sicrhau dyfodol y fenter. Yn dilyn y rhesymu, a'r pwyllgor yn cytuno i drafod yr amodau mewn cyfarfod yn y dyfodol, byddai'r amodau hyn yn cynnwys y cyfyngiadau ar feddiannu'r cyfleuster – i fod ar gyfer gweithiwr gwledig neu weithiwr gwledig wedi ymddeol – ac y ceir gwared â'r adeilad oddi ar y safle be bai'r busnes yn dod i ben.

**Pleidlais –**
O blaid – 17
Yn erbyn – 2
Ymatal – 0

***PENDERFYNWYD:*** *y dylid* ***CYMERADWYO****'r cais yn groes i argymhelliad y swyddog.*

## 7 ADRODDIAD ER GWYBODAETH - CRYNODEB O BENDERFYNIAD APÊL KYNSAL HOUSE (45/2021/0516)

Cyflwynwyd adroddiad er gwybodaeth i'r aelodau – Crynodeb o Benderfyniad Apêl Kynsal House (45/2021/0516).

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Cynllunio'n nodi adroddiad Crynodeb o Benderfyniad Apêl Kynsal House (45/2021/0516).*